

CYNLLUN GWERS CALCH			
Pwnc	Uned	Gwers	Cyfnod Allweddol
Celfyddyd a Dylunio	1	Chwareli, calchfaen ac odynau	CA2/3
<p>Amcanion dysgu: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hanes byr am y safle a pham y cafodd ei gloddio • Pa mor bwysig oedd calchfaen i'r gymuned leol • Bod y diwydiant wedi effeithio'n sylweddol ar y dirwedd 			
<p>Geiriau allweddol: calchfaen, tirwedd, diwydiant, odynau</p>			
<p>Cyflwyniad: Gwers gyflwyniadol ydy hon fel bod y disgyblion yn dod i ddeall arwyddocâd hanesyddol y safle ac am y potensial i'w ddefnyddio fel project celfyddyd a dylunio.</p> <p>Yn dilyn y cyflwyniad PowerPoint, gofynnir i'r disgyblion feddwl (mewn grwpiau) pa adeiladwaith sydd yn y ffotograff (odyn) ac yna ateb pedwar cwestiwn, eto yn eu grwpiau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwy adeiladodd hwn? • Beth oedd ei bwrpas? • Pryd y cafodd ei adeiladu? • Pam y cafodd ei adael? <p>Ar ôl 5-10 munud, gellir dangos ffotograffau ychwanegol ar y PowerPoint i helpu'r disgyblion i ateb y cwestiynau uchod ac i ddod i gasgliad.</p>			<p>Amseru (Yn seiliedig ar 60 mun)</p> <p>5 mun</p> <p>5-10 mun</p> <p>5 mun</p>
<p>Prif ran: Yn dilyn y cyflwyniad PowerPoint, eglurwch sut roedd odyn yn cael ei defnyddio ac ar gyfer beth.</p> <p>Defnyddiwch y PowerPoint i ddangos rhai ffyrdd o ddefnyddio calch. Yn dilyn hyn, gellir cyflwyno agweddau eraill ar y safle i'r disgyblion, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystlumod – yn byw yn yr odynau • Planhigion anghyffredin yn tyfu yno sy'n hoffi'r pridd alcaliaidd • Twffa – dyddodyn calsiwm carbonad sy'n ymddangos ar yr wyneb wrth i law olchi trwy'r tomenni pridd gwastraff • Cofebion – nid yn unig i David Davies ond hefyd i farwolaethau mwy diweddar • Treftadaeth – arwyddocâd hanesyddol y safle • Ffossilau – wedi'u ffurfio dros filiynau o flynyddoedd <p>Gan ddefnyddio'r pwyntiau uchod a'r pecyn lluniau, gofynnir i'r disgyblion feddwl pa agwedd ar y safle sydd o'r diddordeb mwyaf iddyn nhw a pham.</p> <p>Bydd angen i'r disgyblion dynnu llun diagram corryn o syniadau ar sut y gallan nhw gynrychioli'r safle orau trwy broject creadigol.</p> <p>Gartref, gall y disgyblion ddefnyddio'r Rhyngrwyd i archwilio mwy o luniau o chwareli ac odynau er mwyn hyrwyddo'u hargraff gyffredinol o chwarel Herbert.</p>			<p>5 mun</p> <p>10 mun</p> <p>5 mun</p> <p>10 mun</p>

<p>Sesiwn lawn: I gloi'r wers, gwiriwch fod y disgyblion yn deall beth ydy ody'n a pham roedd calchfaen yn cael ei losgi.</p> <p>Atgoffa am yr ymweliad â'r safle: Os oes ymweliad wedi'i gynllunio ar gyfer y wers nesaf, dylid atgoffa'r disgyblion i wisgo dillad ac esgidiau addas ac i ddod ag unrhyw eitemau angenrheidiol eraill. Dylai'r disgyblion ddod â phensiliau, rwberi a hogwyr, ynghyd â llyfrau braslunio a llyfrau nodiadau. Efallai y bydd angen pecyn bwyd, yn dibynnu ar hyd yr ymweliad. Dylen nhw ddod â diod hefyd.</p>	<p>5-10 mun</p>
<p>Gwahaniaethu: Dylai'r disgyblion weithio yn ôl eu gallu eu hunain ond efallai y bydd arnyn nhw angen help ychwanegol gyda'r broses greadigol.</p>	
<p>Asesu: Ar y cam hwn yn y project, gall yr asesu fod ar ffurf cwestiwn ac ateb ar ddiwedd y wers. Bydd y darn celfyddyd terfynol yn cael ei asesu yn ddiweddarach.</p>	
<p>Adnoddau: cyflwyniad PowerPoint, papur A3, pecyn lluniau (sy'n cael ei gynnwys yn yr adnoddau)</p>	
<p>Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:</p> <p>Llythrennedd – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol</i> • <i>Cyfrannu at drafodaeth grŵp</i> • <i>Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw</i> • <i>Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol</i> • <i>Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol</i> <p>Rhifedd – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau</i> <p>Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm: Gall y disgyblion ddefnyddio TGCh yn eu gwaith cartref er mwyn dod o hyd i luniau eraill o'r chwarel a chael argraff gyffredinol o chwareli.</p>	